# Cynnig i newid

## Ysgol Cae'r Gwenyn, Wrecsam

Dogfen Ymgynghori

(Fersiwn i Blant)



WCBC/ER821/03102024




wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

# Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am bob ysgol yn ein hardal. Rydym ni'n rhan o dîm sy'n gweithio i'r Cyngor i gefnogi'r ysgolion hyn.

# Ein nodau:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion Cymraeg, ysgolion Saesneg neu ysgolion Ffydd ardderchog.
- Bod ag adeiladau diogel a chryf.
- Gwneud yn siŵr fod arian ar gyfer plant yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar safbwyntiau pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.



## Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Cae'r Gwenyn yn ysgol brif ffrwd meithrin yn unig.

Mae yna blant hŷn nag oed Meithrin yn mynychu'r ysgol hon.

## Beth yw ein syniad ni?

Newid yr ysgol, fel bod modd i blant hyd at 7 oed ei mynychu.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol ar gyfer plant sydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol â'u dysgu, ni fyddai hynny'n newid.

Byddai'r ystod oedran ar gyfer plant rhwng 3-7 oed.



# Beth allai newid?

Ni fydd unrhyw newidiadau i'r plant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.

Bydd y dosbarthiadau ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed.

# Pam rydym yn meddwl bod angen i bethau newid?


Yn y dyfodol, bydd arnom angen mwy o lefydd mewn ysgolion ar gyfer plant sydd angen cymorth ychwanegol â'u dysgu.



## Pam rydym ni'n gofyn am dy farn?

Rydym am ofyn i ti beth yw dy farn am ein syniad.

## Pa mor hir fydd pethau'n cymryd?



Pobl yn dweud eu barn wrthym ni:

**Rhagfyr 2024 i Ionawr 2025**

Cytuno ar beth rydym ni'n ei wneud:

**Gorffennaf 2025**

Newid yr ystod oedran yn yr ysgol a'I newid yn ffurfiol yn ysgol ar gyfer plant sydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol â'u dysgu (ysgol arbennig):

**Medi 2025**


## Eisiau gwybod mwy?

Rydym ni wedi gwneud hwn yn fyr ac mewn ffordd y byddi di'n ei deall, gobeithio. Rydym ni wedi anfon dogfen hirach at dy rieni, dy athrawon ac at bobl eraill.

Mae'r dogfennau hirach i'w gweld ar ein gwefan drwy chwilio am 'Ymgynghoriad Ysgolion' ar wrecsam.gov.uk neu drwy sganio'r Cod QR.


# Beth ydi eich barn chi?

Dyweda wrthym ni **os wyt ti'n deall** beth yw ein syniad drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.




Dw i'n deall

☐



Dydw i ddim yn siŵr os ydw i'n deall


☐



Dydw i ddim yn deall


☐

Dyweda wrthym ni **sut wyt ti'n teimlo** am ein syniad drwy roi tic ar un o'r wynebau isod.




Dw i'n ei hoffi

☐



Dydw i ddim yn gwybod os ydw i'n ei hoffi

☐



Dydw i ddim yn ei hoffi

☐

# Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ti ei ddweud?

Cofia ddweud wrthym ni...

- Oes yna unrhyw beth arall yr hoffet ei weld yn hytrach na'r hyn rydym ni yn ei gynllunio?
- Hoffet ti ddweud unrhyw beth arall?

Anfona dy sylwadau atom ni erbyn **24 Ionawr 2025**

Ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddi'n ei anfon atom wedi hynny.


## E-bost

Anfona dy sylwadau atom ni dros e-bost:

Actonprimaryschoolconsultation@wrexham.gov.uk

Barkerslaneconsultation@wrexham.gov.uk

Watsdykeconsultation@wrexham.gov.uk



## Ysgrifenna atom ni

Anfona dy sylwadau drwy ysgrifennu atom ni:

Addysg, Adeiladau'r Goron,
31 Stryt Caer,
Wrecsam, LL13 8BG

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn casglu'r holl atebion ac yn rhannu'r prif sylwadau â phawb.

**Ebrill 2025**

Bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod er mwyn penderfynu beth i'w wneud.

**Gorffennaf 2025**

Byddwn yn rhoi gwybod i bawb beth yw'r penderfyniad.

**Gorffennaf 2025**

